## Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## ADRODDIAD GWEINIDOG Y CYNULLIAD I'R PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES AR 24 EBRILL 2002.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y materion penodol yr oedd yn dymuno cael eu hysbysu amdanynt ers fy adroddiad diwethaf ar 20 Mawrth 2002. Mae **Atodiad A** yn nodi fy mhrif ymweliadau ers yr adroddiad diwethaf.

## DEDDFWRIAETH SYLFAENOL 2002-03; Y MESUR ADDYSG NEWYDD

Ym mis Mawrth bob blwyddyn caiff y Cynulliad Cenedlaethol y cyfle, o dan y Rheolau Sefydlog, i drafod cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru. Cynhaliwyd y ddadl hon, sy'n rhan ganolog o'r setliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mawrth. Un o'r cynigion eleni oedd y dylid cyflwyno Mesur Addysg Cymru. Byddai'r mesur hwn yn ei gwneud yn haws i'r Cynulliad weithredu'r cynigion a gynhwysir yn y ddogfen ymbaratoi ar addysg, *Y Wlad Sy'n Dysgu,* trwy roi grym statudol i amryw o bolisïau sy'n cael eu gweithredu'n weinyddol ar hyn o bryd.

Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn byddai'r Mesur yn rhoi'r grym penodol i'r Cynulliad dalu grantiau i fyfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach, fel a argymhellir yn Adroddiad Rees ar galedi myfyrwyr. Byddai hynny'n rhoi sail ddeddfwriaethol gadarnach i Grantiau Dysgu'r Cynulliad ac yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn parhau i weithredu'r polisi pwysig hwn. O ran y camau sy'n cael eu cymryd i ad-drefnu Addysg Uwch o dan *"Cyrraedd yn Uwch"*, gallai roi cyfrifoldeb cynllunio statudol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'i gwneud yn ofynnol i CCAUC gynllunio ar y cyd â'r Cyngor Cenedlaethol. Byddai hynny'n cwblhau'r broses o integreiddio addysg a hyfforddiant yng Nghymru a ddechreuwyd gyda Deddf Dysgu a Sgiliau 1999. Hefyd byddai'n bosibl ymestyn y terfyn statudol cyfredol ar faint dosbarthiadau plant oed babanod i ddosbarthiadau iau.

## HYNT Y TASGLU AR LEIHAU'R BWLCH

Er bod cyrhaeddiad addysgol wedi gwella'n sylweddol yn gyffredinol, mae wedi bod yn destun pryder i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad yw'r bwlch rhwng ysgolion - y rheini sy'n gwasanaethu ardaloedd tebyg yn gymdeithasol-economaidd yn fwyaf arbennig - wedi lleihau. Sefydlodd y Cyngor Partneriaeth dasglu ym mis Hydref 2001 i edrych ar y gwahaniaethau ym mherfformiad ysgolion gyda'r nod o lunio argymhellion ar gyfer gweithredu. Daw aelodau'r grwp o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol, Estyn, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Llywodraethwyr Cymru, yr undebau athrawon, Cymdeithas Ysgolion Cynradd Cymru, Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ACCAC ac ELWa.

Y cylch gorchwyl a roddwyd i'r tasglu oedd:

canfod pa ffactorau sy'n arwain at y bwlch perfformiad rhwng gwahanol ysgolion, a rhwng ysgolion mewn ardaloedd cefnog a difreintiedig yn arbennig;

datblygu diffiniad o "berfformiad da" sy'n ystyried gwerth ychwanegol a'r targedau cyffredinol a nodir yn Gwell Cymru a'r Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant;

canfod enghreifftiau o ysgolion yng Nghymru a'r tu hwnt sy'n arddangos perfformiad da yn gyson;

canfod y ffactorau allweddol (addysgol, cymdeithasol ac economaidd ac o ran dyrannu adnoddau) sy'n cyfrannu at berfformiad cyson dda;

gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid cymhwyso'r ffactorau allweddol hyn yn holl AALlau Cymru, gan ystyried yn arbennig swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol, AALlau, prifathrawon / uwch reolwyr ysgolion, athrawon a llywodraethwyr.

Rwyf i wedi rhannu'r gwaith o Gadeirio'r grwp hwn gyda'r Cynghorydd Jeff Jones o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rwy'n falch bod Cynog Dafis AC wedi bod yn aelod o'r Grwp. Mae'r Grwp yn gwneud gwaith da. Mae'r Tasglu wedi'i galonogi'n fawr gan ganlyniadau'r gwaith y mae wedi'i gomisiynu ond mae'n credu'n gryf bod y mater hwn yn un mor bwysig fel ei fod am gael mwy o amser i brofi'r data ystadegol a'r canfyddiadau sy'n deillio ohonynt, er mwyn sicrhau bod sylfaen gref o dystiolaeth, sy'n gallu gwrthsefyll cael ei harchwilio'n drylwyr, i adeiladu polisïau ar gyfer y dyfodol arni.

O ganlyniad, bwriadaf ddod ag adroddiad y Tasglu gerbron cyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth ar 15 Gorffennaf 2002.

## ADDYSG GORFFOROL A CHWARAEON MEWN YSGOLION

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella lefelau iechyd a ffitrwydd yng Nghymru ac i roi pwyslais newydd ar chwaraeon mewn ysgolion a chymunedau lleol. Yn arbennig, mae'n cydnabod bod Addysg Gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yn gwneud cyfraniad allweddol at iechyd, ffitrwydd corfforol a datblygiad cyffredinol pobl ifanc.

"Cynllun Gweithredu Cymru" y Tasglu ar Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2001, oedd y sbardun ar gyfer gwella safonau addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion ar gyfer holl bobl ifanc Cymru. Fe wnes i groesawu'r cynllun gan ryddhau adnoddau i Gyngor Chwaraeon Cymru iddynt allu gweithredu nifer o'r argymhellion. Wrth wneud y gwaith hwn mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i sicrhau bod y gwaith arfaethedig yn ategu cyllid y Gronfa – £48m dros 4 blynedd - ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion. Defnyddir cyllid y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn bennaf i adeiladu cyfleusterau newydd ac adnewyddu cyfleusterau presennol. Defnyddir arian y Cyngor Chwaraeon yn bennaf i godi safonau trwy ddatblygu'r cwricwlwm a staff a thrwy hyrwyddo partneriaethau lleol a fydd yn datblygu ac yn rhannu arferion da.

Cydlynir y gwaith gan Reolwr Datblygu Cenedlaethol a benodwyd gan y Cyngor Chwaraeon, ac sy'n atebol i grwp llywio sy'n dwyn ynghyd arbenigwyr o ACCAC, Estyn, yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gan aelodau'r grwp llywio yr hawl i gyfethol arbenigwyr i'w plith os oes angen. Tasg y Swyddog Datblygu, yn y lle cyntaf, yw treialu nifer o Ganolfannau Datblygu'r Cwricwlwm (CDC) lleol er mwyn profi dulliau arloesol o ddarparu'r cwricwlwm. Mae pob CDC yn dwyn ynghyd nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd i weithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys colegau lleol, darparwyr addysg uwch a chanolfannau hamdden, i ddarganfod dulliau arloesol o rannu adnoddau, arbenigedd ac arferion da, a gwneud y defnydd gorau posibl ohonynt. Caiff y dulliau a ddefnyddiwyd a'r gwersi a ddysgwyd - dros gyfnod o ddwy flynedd - eu rhannu ag eraill er mwyn helpu i godi safonau ledled Cymru.

Ers mis Ionawr mae 3 CDC wedi bod ar waith - yng Nghaerffili, Aberystwyth a Chaerfyrddin – ac mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu hyd at 16 CDC erbyn mis Ebrill 2003. Hyd yn hyn mae camau arwyddocaol wedi'u cymryd ac, yn arbennig, mae cysylltiadau cadarn wedi'u datblygu gyda'r rhwydwaith o gydlynwyr ysgolion a sefydlwyd fel rhan o Gynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Dyma enghraifft wych o sut y gellir dwyn mentrau ynghyd ar lefel leol er mwyn cefnogi ysgolion yn eu gwaith gyda phobl ifanc. Caiff prosiectau pellach eu lansio yn ystod 2002-03 er mwyn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i athrawon dan hyfforddiant iddynt allu dysgu addysg gorfforol a hefyd i ehangu'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ym

maes addysg gorfforol ar gyfer pob athro.

## PARTNERIAETH Y SECTOR GWIRFODDOL

Cefais fy ail gyfarfod â Chyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol ym mis Hydref ac amgaeir cofnodion y drafodaeth honno yn Atodiad B. Byddaf yn cwrdd â hwy eto ar 29 Ebrill a'r pynciau a drafodir fydd y camau a gymerwyd hyd yn hyn i weithredu cynllun partneriaeth y Sector Gwirfoddol ym maes addysg, Cymraeg i oedolion, Cynllun Corfforaethol y Cyngor Cenedlaethol a datblygiadau o ran Ymestyn Hawliau. Rwy'n credu bod y cyfarfodydd hyn yn gyfle gwerthfawr imi ennill dealltwriaeth dda o bryderon y sector Gwirfoddol ac i gael eu barn hwy ar y polisïau yr ydym yn ystyried eu gweithredu.

## TGCh

Yn dilyn cyflwyno'r cynllun grant byrddau gwyn mewn ysgolion ledled Cymru ym mis Mawrth, rydym yn cydweithio â Grwp Arbenigol ELWa ar TGCh er mwyn trafod ffyrdd o ehangu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth dechnegol a roddir i ysgolion ac AALlau drwy ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael o dan strategaeth band eang y Cynulliad.

Derbyniwyd tendrau ar gyfer contract Tasglu TGCh ac NGfL Cymru ar 18 Mawrth. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar rai materion a gododd yn ystod y broses o arfarnu'r tendrau ac rydym yn gobeithio cyhoeddi pwy sydd wedi cael y contractau erbyn diwedd y mis.

## BLWYDDYN WYDDONIAETH

Mae rhan gyntaf Blwyddyn Wyddoniaeth Cymru bellach wedi'i chwblhau. Yn ystod y cyfnod hwn, datblygwyd gwefan ar gyfer Blwyddyn Wyddoniaeth Cymru, rhoddwyd cyllid grant i brosiectau a gweithgareddau gwyddonol mewn ysgolion uwchradd; a dosbarthwyd CD-roms gwyddoniaeth i ysgolion. Mae'r Cynulliad hefyd wedi rhoi arian i ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig iddynt allu prynu microsgopau digidol Intel ac wedi darparu byrddau gwyn digidol i adrannau gwyddoniaeth ysgolion uwchradd (fel rhan o'r fenter band eang / byrddau gwyn).

Cyhoeddais fanylion gweithgareddau eraill a gynhelir yn y dyfodol fis Chwefror: yn eu plith roedd ail rownd o gyllid ar gyfer prosiectau mewn ysgolion a sefydliadau eraill, gyda mwy o bwyslais ar gryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, a chydag addysg uwch/bellach a byd busnes - gan hybu'r nod tymor hir o hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gwyddoniaeth.

**CYNLLUN BLYNYDDOL ESTYN 2002-03**

Yn ddiweddar, cymeradwyais Gynllun Blynyddol Estyn ar gyfer 2002-03. Paratowyd y cynllun yn unol ag Adran 87 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac mae'n sicrhau bod gwaith Estyn yn ategu agenda'r Llywodraeth ar gyfer Gwlad sy'n Dysgu. Mae'n amlinellu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer 2002-05 ac mae hefyd yn nodi manylion yr arolygiadau a'r cyngor a ddarperir yn 2002-03. Mae'r cynllun i'w weld ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).

**YMGYNGHORI AR Y CYNIGION I'W GWNEUD YN OFYNNOL I'R RHAI SY'N DOD YN BRIFATHRAWON AM Y TRO CYNTAF ENNILL Y CYMHWYSTER PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL AR GYFER PRIFATHRAWIAETH (NPQH)**

Rwy'n bwriadu ei gwneud yn ofynnol i bawb yng Nghymru sy'n dod yn brifathrawon am y tro cyntaf i feddu ar yr NPQH neu gael eu derbyn ar y rhaglen cyn dechrau yn eu swyddi. Cynhelir ymgynghoriad ar yr amserlen arfaethedig, a manylion rhoi'r gofyniad hwn ar waith, ym mis Medi 2002.

Mae'r NPQH diwygiedig a gyflwynais i yng Nghymru ym mis Ionawr 2002 wedi gwneud y rhaglen yn fwy strwythuredig a syml, trwy gynnig mwy o gymorth gan diwtoriaid a thrwy roi mwy o bwyslais ar asesu yn yr ysgol. Mae ymgeiswyr hefyd yn cwblhau'r rhaglen mewn cyfnod llawer byrrach; mae hynny'n cynyddu'r niferoedd sy'n gallu dilyn y rhaglen. Y sefyllfa ar hyn o bryd yng Nghymru yw bod 198 o ymgeiswyr wedi ennill y cymhwyster, a 263 o ymgeiswyr eraill yn gweithio tuag at ennill y fersiwn gynharach o'r NPQH. Disgwylir y bydd mwyafrif yr ymgeiswyr hyn wedi ennill y cymhwyster erbyn mis Rhagfyr 2002. Cofrestrodd 188 o ymgeiswyr newydd ar gyfer y rhaglen ar ei newydd wedd ym mis Ionawr 2002, a bydd y rhain i gyd wedi cwblhau'r rhaglen erbyn mis Awst 2003. Gwelir o'r ffigurau hyn y bydd bron i 650 o athrawon uwch yn dal NPQH erbyn mis Medi 2003. Nid yw'r ffigwr hwnnw'n cynnwys ymgeiswyr a gaiff eu recriwtio ym mis Medi 2002.

Rwyf wedi fy argyhoeddi, ar ôl gweld data cychwynnol yr AALlau ar gyfer trosiant blynyddol prifathrawon yng Nghymru dros y pedair blynedd diwethaf, y bydd cryn dipyn yn fwy o ymgeiswyr yn ennill y cymhwyster NPQH nag a fydd o swyddi ar eu cyfer, hyd yn oed os

ystyrir bod rhai ohonynt yn brifathrawon eisoes.

Rwy'n ymwybodol, fodd bynnag, bod yr NPQH diwygiedig yn gymhwyster cymharol newydd yng Nghymru o hyd. Mae'n rhaid rhoi amser iddo ymsefydlu. Bydd nifer sylweddol o ymgeiswyr yn cwblhau'r fersiwn gynharach o'r NPQH erbyn mis Ebrill 2003. Mae angen cynnal ymchwil bellach i rai materion o hyd. O ganlyniad, mae'n debygol mai'r dyddiad cynharaf y gellid ei ystyried ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n dod yn brifathrawon am y tro cyntaf yng Nghymru feddu ar NPQH fyddai mis Medi 2005. Bydd hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar y safbwyntiau a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad.

Rwyf wedi gosod 2005 fel dyddiad targed er mwyn gallu cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod pob mater sydd o arwyddocâd cenedlaethol yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad yr hydref hwn. Wedi hynny, bydd dogfen ymgynghori ynghylch pryd y dylai'r NPQH ddod yn ofynnol yng Nghymru yn cael ei pharatoi ar gyfer ei chyhoeddi ym mis Medi 2002. Bydd hyn yn arwain at gyngor pellach ym mis Ionawr 2003 a bydd hefyd yn arwydd i'r proffesiwn o beth yw bwriadau'r Cynulliad cyn y broses recriwtio nesaf ar gyfer yr NPQH ganol mis Medi 2002. Caiff y ceisiadau ar gyfer proses recriwtio 2002 yr NPQH eu monitro er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y broses yn gadarn a bod y niferoedd yn parhau yn ddigon uchel i sicrhau y gellir dechrau ar y dyddiad a gefnogwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Sefydlir bwrdd prosiect a fydd yn cynnwys yr holl brif randdeiliaid yn y broses o baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad.

**CCAHau**

**Adroddiad Archwilio**

Cwblhaodd Llywodraeth y Cynulliad Archwiliad o Aelodaeth y CCAHau ac fe anfonais yr adroddiad a oedd yn deillio o'r archwiliad at Gadeiryddion y CCAHau, y Cyngor Cenedlaethol ac aelodau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 14 Tachwedd.

Tynnodd yr Archwiliad sylw at nifer o wendidau cyffredinol o ran aelodaeth y CCAHau, er ei fod yn nodi bod rhai CCAHau yn cael mwy o drafferthion o ran cael aelodau o grwpiau a dangynrychiolir na'i gilydd. Tynnwyd sylw at ddiffygion o ran grwpiau a dangynrychiolir (grwpiau ethnig, pobl anabl a menywod), y sector gwirfoddol, ysgolion cyfrwng Cymraeg, addysg uwch a'r undebau llafur. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi enghreifftiau o strwythurau'r CCAHau a'r rhwydweithiau cefnogi y maent yn eu defnyddio i gadw mewn cysylltiad â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod y CCAHau yn bartneriaethau gwirfoddol, nad oedd Aelodau yn cael eu penodi gan unrhyw gorff arbennig a bod angen cael cydbwysedd o ran

aelodau ond, ar yr un pryd, sicrhau bod y CCAHau o faint rhesymol. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad hefyd yn argymell bod y CCAHau yn adolygu'r gynrychiolaeth gyfredol ar unwaith er mwyn sicrhau bod grwpiau y dangoswyd eu bod yn cael eu tangynrychioli yn cymryd rhan mewn CCAHau. Yn benodol, gofynnwyd i'r CCAHau fynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd erbyn mis Mawrth 2002.

**Ymweliadau â'r CCAHau**

Penderfynais ymweld â'r holl CCAHau yn ystod eu blwyddyn gyntaf ac mae'r ymweliadau hyn bellach wedi'u cwblhau. Rwyf wedi defnyddio'r ymweliadau hyn i bwysleisio pa mor bwysig yw cael cynrychiolaeth gytbwys ar bob consortiwm, a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol a'r undebau yn arbennig.

Yn ystod yr ymweliadau mwyaf diweddar, sylwais fod y consortia wrthi'n ystyried sut y gallent gwrdd ag anghenion eu hardaloedd yn well trwy ailstrwythuro ac asesu cynrychiolaeth pob sector er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd.

**Yr Ail Gynhadledd Genedlaethol ar CCAH**

Rhoddais anerchiad i ail gynhadledd flynyddol y CCAHau ddydd Mercher 17 Ebrill ar Faes y Sioe, Llanfair-ym-Muallt. Roedd cynulliad da o tua 200 o gynrychiolwyr yno a chafwyd trafodaeth gynhyrchiol ar faterion sy'n effeithio ar y consortia a chanllawiau diweddaredig y Cyngor Cenedlaethol i'r CCAHau. Un ffactor a fydd yn hanfodol i lwyddiant y CCAHau fydd ansawdd y gefnogaeth y bydd y Cyngor Cenedlaethol yn ei roi iddynt ac rwyf wedi rhoi her i'r Cyngor i sicrhau ei fod yn gallu ymateb mewn modd priodol i anghenion y CCAHau.

## Y FAGLORIAETH GYMREIG

Ar 17 Ebrill cefais y pleser o fod yn bresennol yng nghyhoeddiad CBAC ynghylch pa ysgolion a cholegau a fyddai'n cymryd rhan yng ngham cyntaf y cynllun peilot ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig pan fyddai'n dechrau ym mis Medi 2003. Rwyf wedi dweud yn glir o'r dechrau fy mod am i'r Fagloriaeth Gymreig fod yn gymhwyster a fyddai'n gweithio mewn ysgolion a cholegau o Ferthyr i Fae Colwyn a dyna'n union beth y mae'r 19 o ganolfannau peilot yn ei roi inni (gweler Atodiad C).

Rwy'n falch o weld y bydd y cynlluniau peilot cyntaf yn rhychwantu pob rhan o Gymru ac yn cynnwys nifer o wahanol fathau o ganolfannau. Bydd pob canolfan yn gwneud cyfraniad pwysig i'r peilot. Fel y dywedais yn y lansiad, mae hwn yn gam hanesyddol i fyd addysg yng Nghymru. Bydd y Fagloriaeth Gymreig - cymhwyster a ddatblygwyd yng Nghymru ar gyfer Cymru - yn unigryw, yn fodern ac yn hollol Gymreig.

Mae ysgolion a cholegau eraill eisoes wedi mynegi diddordeb mewn bod yn ganolfannau peilot yn y dyfodol. Bydd ail a thrydedd carfan o ganolfannau yn dechrau cynnig y Fagloriaeth ym mis Medi 2004 a mis Medi 2005.

**CILT Cymru / Ieithoedd sy'n Cyfrif**

Ar 18 Mai roeddwn yn bresennol yn lansiad y Ganolfan Wybodaeth am Ddysgu Ieithoedd ac Ymchwil (CILT) Cymru ac fel lansiais ein Strategaeth Genedlaethol ar Ieithoedd Tramor Modern "Ieithoedd sy'n Cyfrif". Cynhaliwyd y digwyddiad yn swyddfeydd CILT Cymru yn Adeiladau Cambria, Mount Stewart Square, Bae Caerdydd a dyma hefyd fydd cartref y Consejería de Educación yng Nghymru. Mae unigolion blaenllaw o Gymru yn gwasanaethu CILT Cymru ond mae hefyd yn hynod ffodus o allu manteisio ar arbenigedd José Luis Estafani o Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen.

Prif nod CILT Cymru yw hyrwyddo mwy o hyfedredd mewn ieithoedd yn genedlaethol. Bydd CILT Cymru yn mynd i'r afael â'r agenda a'r blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, gan gynnwys ACCAC ac Estyn. Bydd hefyd yn cydweithio'n agos â chyflogwyr yng Nghymru ac, yn arbennig, y rheini y mae angen sgiliau iaith arnynt ar gyfer allforio ac at ddibenion eraill.

Roedd Adroddiad Nuffield, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2000, yn tynnu sylw at y ffaith bod angen cynyddu'r niferoedd sy'n dysgu ieithoedd ledled y DU, a gwella ansawdd y dysgu hwnnw. Roedd tystiolaeth o arolygiadau Estyn yn ategu'r ffaith bod angen gweithredu yng Nghymru. Roedd Adroddiad Nuffield yn galw am strategaeth genedlaethol ar gyfer ieithoedd. Rwy'n hynod falch fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb i'r alwad honno yng Nghymru. Mae'n strategaeth hefyd yn mynd i'r afael â nifer o brif gynigion Nuffield:

- Bydd creu CILT Cymru yn helpu i godi proffil ieithoedd yng Nghymru;
- Bydd cyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 2 yn rhoi cychwyn cadarn i blant ifanc;
- **Bydd Estyn yn cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer ysgolion er mwyn gwella trefniadau mewn ysgolion uwchradd;**
- Bydd y modiwl iaith yn y Fagloriaeth Gymreig yn gwneud ieithoedd yn rhan orfodol o'r cwricwlwm 16-19 oed;
- Bydd adolygiad strategol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o'r ddarpariaeth Ieithoedd Tramor Modern mewn addysg uwch yn edrych ar y trefniadau ar gyfer dysgu ieithoedd o fewn addysg uwch, a'r modd y caiff ei gyllido.